O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 493 (Cy. 91)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Robeston Wathen i Gyffordd Pengawse Hill, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025

Gwnaed	*15 Ebrill 2025*
Yn dod i rym	*26 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4) a (7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Robeston Wathen i Gyffordd Pengawse Hill, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Ebrill 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(c) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 26 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt fel y pennir yn erthygl 2(a), ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

gyflymach na 50, 40 neu 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, droi i'r dde neu i'r chwith ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 3 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cymhwyso

12.— (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Ebrill 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Gwahardd Aros a Therfynau Cyflymder 50 mya, 40 mya neu 30 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) sy'n ymestyn o Gylchfan Robeston Wathen hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Pengawse Hill, gan gynnwys pob cilfan ac eithrio'r gilfan sydd wedi ei lleoli ar y gerbytffordd tua'r dwyrain yn union i'r gorllewin o Gylchfan Penblewin a'r ardal orffwys ym Mhenblewin.

ATODLEN 2

Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) sy'n ymestyn o'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr annedd o'r enw Jacobs Park hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Pengawse Hill, gan gynnwys pob cilfan ac eithrio'r gilfan sydd wedi ei lleoli ar y gerbytffordd tua'r dwyrain yn union i'r gorllewin o Gylchfan Penblewin a'r ardal orffwys ym Mhenblewin.

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) sy'n ymestyn o Gylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 175 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i'r annedd o'r enw Maes-y-Ffynnon.

ATODLEN 4

Gwahardd Troi i'r Dde/i'r Chwith Dros Dro

Dim troi i'r dde o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i fynd ar y B4313 Redstone Road.

Dim troi i'r chwith o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i fynd ar y B4313 Redstone Road.